# BAGLORIAETH CYMRU

Cyfnod Allweddol 4

Cenedlaethol/Sylfaen

# Her Dinasyddiaeth Fyd-eang

Byw yn Gynaliadwy

Sustrans - Trafnidiaeth Gynaliadwy

# Ar gael ar gyfer asesiad o Fedi 2015

## Trafnidiaeth Gynaliadwy

**PWRPAS**

Pwrpas yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yw datblygu sgiliau disgyblion, wrth roi cyfleoedd i ddeall ac ymateb mewn modd addas i faterion byd-eang. Yn ystod yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang bydd disgyblion yn gwneud datblygiad amlwg mewn sgiliau **Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau** a **Chreadigedd ac Arloesi** ac yn eu rhoi ar waith mewn ffordd briodol.

**BRIFF**

Mae nifer o broblemau yn y byd y dylem oll helpu i'w datrys p'un ai ei fod yn digwydd cannoedd neu filoedd o filltiroedd i ffwrdd, neu ble'r ydych yn byw yng Nghymru. Sut ydych chi'n dod yn ddinesydd byd-eang? Rydych angen datblygu cydwybod ddynol a barnu am y materion sy'n bwysig a'r math o fyd yr hoffech fyw ynddo. Mae bod yn ddinesydd byd-eang yn rhoi'r pŵer i chi ddod a newid cadarnhaol i wneud y byd yn well lle.

Mae Sustrans yn elusen flaengar, yn helpu pobl ddewis siwrneiau iachach, glanach a rhatach, yn gweithio i gael pobl allan o'u ceir ac yn teithio'n egnïol. Credwn ei bod yn bwysig fod pobl ifanc yn datblygu dealltwriaeth am gynaliadwyedd er mwyn gwneud penderfyniadau deallus a chyfrifol fel dinasyddion. Mae'r system drafnidiaeth a ddewisir gan gymdeithas yn cael effaith ar draws themâu PESTLE. Ar ben hynny, mae trafnidiaeth yn fater sy'n dangos sut mae'r dewisiadau a wnawn fel dinasyddion unigol yn cael effeithiau pellgyrhaeddol. Mae ein harferion teithio yn effeithio'r amgylchedd lleol a byd-eang, ac yn her byd go iawn y mae angen i gymunedau ledled y byd fynd i'r afael â hi.

Mae eich ysgol yn bryderus am y nifer o ddisgyblion sy'n defnyddio ceir i deithio i ac o'r ysgol. Mae Sustrans yn eich gwahodd i gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn eich ysgol i gynulleidfa darged o'ch dewis chi.

Bydd yr Her yn gofyn i chi fedru hysbysu ac addysgu'r disgyblion am deithio egnïol a chynaliadwy. Bydd angen i chi ddeall effeithiau lleol a byd-eang gwahanol ddulliau trafnidiaeth. Byddwch yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth am **Drafnidiaeth Gynaliadwy** i ymchwilio gwahanol farnau pobl ac adnabod eich syniadau eich hun am **Drafnidiaeth Gynaliadwy.** Cewch benderfynu pa fath o deithio i'w hyrwyddo a sut byddwch yn cynnal y gweithgaredd codi ymwybyddiaeth, ond rhaid iddo fod yn addas ar gyfer eich cynulleidfa darged, a defnyddio cyfathrebu effeithiol gan roi neges glir sydd yn gofiadwy, gwreiddiol a pherthnasol.

Wrth gwblhau'r Her hon byddwch yn dangos eich gallu i resymu, barnu a gwneud penderfyniadau er mwyn creu safbwynt personol deallus am Drafnidiaeth Gynaliadwy. Mae'r codi ymwybyddiaeth yn eich caniatáu i ddangos pa mor greadigol ac arloesol y gallwch fod wrth gyfleu eich syniadau a chyflwyno'ch neges i bobl eraill.

**ADNODDAU**

www.sustrans.org.uk/cymru/cwricwlwm

**CYSYLLTIADAU**

schoolswales@sustrans.org.uk